

## CYNGOR CAERDYDD

### DEDDF SAFONAU A THREFNIADAETH YSGOLION (CYMRU) 2013

#### DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

#### YSGOL GYNRADD LLANISIEN FACH

**HYSBYSIR DRWY HYN** yn unol ag Adran 42 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod Trefniadaeth Ysgolion, bod Cyngor Caerdydd ("yr Awdurdod"), ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau yr oedd yn ymddangos iddynt eu bod yn briodol, yn cynnig newid Ysgol Gynradd Llanisien Fach, Heol Uchaf, Rhiwbeina, Caerdydd, CF14 6SS fel a ganlyn:

- Cynyddu nifer dynodedig y Ganolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach o 20 i 30 o leoedd.

Cynigir gweithredu'r cynnig o Fedi 2023.

Cynhelir yr ysgol gan Gyngor Caerdydd ar hyn o bryd.

Cynhaliodd yr Awdurdod gyfnod ymgynghori cyn penderfynu cyhoeddi'r cynnig hwn. Gellir gweld adroddiad ar yr ymgynghoriad sy'n cynnwys crynodeb o'r materion a godwyd gan yr ymgynghoreion, ymatebion yr Awdurdod a barn Estyn yn:

[Agenda'r Cabinet Ddydd Iau, 10 Mawrth, 2021, 2:00 pm: Cyngor Dinas Caerdydd \(modern.gov.co.uk\)](http://modern.gov.co.uk)

Ar hyn o bryd, capasiti'r ysgol yw 420 o leoedd ar gyfer plant 4-11 oed. Mae 80 o leoedd meithrin. Nifer presennol y disgyblion yn yr ysgol yw 434 (gan gynnwys plant sy'n mynychu'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol) (4 – 11) a 64 (oed meithrin).

Mae 20 lle yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol. Nifer bresennol y disgyblion yn y ganolfan adnoddau arbenigol yw 19.

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i ysgolion o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Rheolir derbyniadau i'r ganolfan adnoddau arbenigol gan yr awdurdod lleol, yn amodol ar ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu Gynllun Datblygu Unigol (CDU) fel y bo'n briodol.

Byddai derbyniadau i'r ganolfan adnoddau arbenigol ar wahân i'r derbyniadau i'r brif ysgol a byddai'n ychwanegol at y Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC)

Bydd unrhyw drefniadau ar gyfer cludo disgyblion i'r ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisïau presennol yr Awdurdod ar gludo plant i'r ysgol.



O fewn cyfnod o 28 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r cynigion hyn, sef hyd at 02 Mehefin 2022, caiff unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion hyn.

Dylid anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW.

Gellir hefyd anfon gwrthwynebiadau at y Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes, Cyngor Caerdydd i'r cyfeiriad e-bost canlynol: [ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk](mailto:ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk)

Nodwch fod rhaid i unrhyw wrthwynebiadau o'r fath gynnwys enw llawn a chyfeiriad post yr un sy'n gwrthwynebu.

Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw wrthwynebiadau o'r fath a wneir (ac nad ydynt wedi'u tynnu yn ôl yn ysgrifenedig) yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, ynghyd â sylwadau'r awdurdod ar y gwrthwynebiadau hynny, cyn pen 7 niwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod y penderfynir ar y cynnig.

Dyddiedig y 6ed o Fai 2022

Llofnod: Davina Fiore  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraethiant  
a Swyddog Monitro Cyngor Caerdydd

### **NODYN ESBONIADOL**

(Nid yw hwn yn rhan o'r Hysbysiad ond ei nod yw egluro'i ystyron cyffredinol)

Er mwyn ateb y galw am leoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer dysgwyr 4-11 oed sydd ag anghenion dysgu cymhleth, cynigir cynyddu'r nifer dynodedig o leoedd yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol presennol Ysgol Gynradd Llanisien Fach o 20 i 30 o leoedd o fis Medi 2023.

Cynigir y byddai gwaith yn cael ei wneud i ddarparu llety a chyfleusterau newydd, er mwyn hwyluso twf y ganolfan adnoddau.

Yn ogystal â'r cynnydd arfaethedig yn nifer y lleoedd yn y ganolfan adnoddau arbenigol ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu cymhleth yn Ysgol Gynradd Llanisien Fach, cynigiwyd lleoedd pellach ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu cymhleth a chyflwr sbectrwm awtistiaeth ar gyfer nifer o ysgolion o fewn yr awdurdod lleol. Gellir gweld manylion y cynigion hyn a chopïau o'r hysbysiaid statudol ar y dudalen we yma: [Anghenion Dysgu Cymhleth/Darpariaeth Cyflwr Sbectrwm Awtistiaeth \(caerdydd.gov.uk\)](https://www.caerdydd.gov.uk/Anghenion-Dysgu-Cymhleth/Darpariaeth-Cyflwr-Sbectrwm-Awtistiaeth)